



Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Parthed: Adolygiad Ymarfer Plant Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru 2018, Wreccsam 1

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad (i gynnwys yr isod)

- *Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau o ran pa adolygiad sy'n cael ei gynnal*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod dan sylw a pham*

Fframwaith Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2018. Cyflwynir y meini prawf ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant yn y Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015. Mae gan Fyrddau Rhanbarthol Diogelu Plant gyfrifoldeb statudol i gynnal Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaeth mewn amgylchiadau o ddigwyddiad sylweddol pan fydd achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau.

Mae'n rhaid i Fwrdd Diogelu gyflawni Adolygiad Ymarfer Plant Cryno mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, lle bo o fewn ardal y Bwrdd, camdriniaeth neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu a amheuir a bod y plentyn wedi:

- Marw; neu
- Gael anaf sy'n bygwth bywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad;

A phan nad oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant nac yn Blentyn a oedd wedi Derbyn Gofal yn y 6 mis blaenorol:

- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu'r
- Dyddiad y bu i'r Awdurdod Lleol neu'r asiantaeth bartner berthnasol nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad.

Pwrpas yr Adolygiad yw nodi'r hyn a ddysgwyd ar gyfer ymarfer yn y dyfodol ac mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion yn archwilio manylion a chyddestun gwaith asiantaethau gyda plentyn neu deulu. Bwriedir i allbwn Adolygiad ddarparu dysg broffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant o ran ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol.

Methodoleg

- Cynullwyd Panel Adolygu gyda Chadeirydd.
- Penodwyd dau Adolygydd.
- Datblygwyd amserlen i bob asiantaeth a nodwyd.
- Cynhyrchwyd crynodeb / dadansoddiad o gyfranogiad pob gwasanaeth.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau â rhieni'r plentyn a'r nain a'r taid ar ochr y fam.
- Gwelwyd y plentyn yn y lleoliad presennol.
- Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar gyfer ymarferwyr.
- Lluniwyd Adroddiad Adolygu gyda phwyntiau dysgu a'i gyflwyno i'r Panel Adolygu.
- Bu i'r Panel Adolygu gwrdd i gwblhau'r adroddiad.
- Datblygwyd cynllun gweithredu o'r argymhellion.
- Bu i'r Adolygwyr a Chadeirydd y Panel Adolygu gyflwyno'r Adroddiad Adolygu i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Adrodd yn ôl i'r Teulu.
- Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Amserlen

Yr amserlen ar gyfer yr Adolygiad oedd un flwyddyn o fis Mawrth 2017 (pan gyflwynodd yr ysgol ddau Adroddiad o Blentyn mewn Perygl, y cyntaf ers peth amser) i fis Mawrth 2018 pan gafodd y plentyn ei dynnu o'r sefyllfa; gofynnwyd i asiantaethau ystyried eu cyfranogiad cyn yr amserlen, os yn berthnasol.

Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Cafodd plentyn 14 mlwydd oed, gyda diagnosis o awtistiaeth, ei symud o gartref y teulu gyda chymorth yr Heddlu. Ar 5 Mawrth 2018, bu i weithwyr proffesiynol gael mynediad i'r tŷ cyfan ac roedd yn amlwg bod y fam wedi bod yn clecio ers peth amser ac nad oedd yr un rhiant wedi ceisio cymorth mewn perthynas â hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r llawr uchaf yn amhreswyliadwy gyda'r celc yn ymestyn i ardaloedd ar y llawr gwaelod hefyd. Roedd y rhieni a'r plentyn yn cysgu ar sofffa ar y llawr gwaelod ac roedd y ddau riant wedi ceisio cuddio graddau a difrifoldeb y broblem rhag y gweithwyr proffesiynol. Roedd y plentyn yn denau ac fe nodwyd, yn ystod mwy nag un ymweliad, bod y plentyn yn eistedd yn yr un lle ar y sofffa o dan flanced. Roedd gwallt y plentyn yn fudr ac yn glymau i gyd. Roedd yr amodau hyn yr un fath â'r amodau a welwyd yn ystod trafodion blaenorol yn 2007, pan gafodd yr Awdurdod Lleol

Orchymyn Goruchwylio, mewn perthynas â'r plentyn.

Nid oedd y plentyn wedi bod mewn addysg ers 2015, fodd bynnag darparwyd rhywfaint o addysg yn y cartref wedi'r pwynt hwn. Nid oedd y plentyn wedi gweld Meddyg Teulu ers 2013 ac fe ddywedodd y rhieni nad oedd y plentyn wedi gadael cartref y teulu ers 12 mis. Wedi i'r plentyn gael ei symud o'r cartref, cadarnhawyd bod y plentyn wedi dioddef esgeulustod corfforol ac emosiynol.

Gwybodaeth Gefndir

Roedd y plentyn wedi bod yn destun Achos Gofal yn 2007, oherwydd gallu'r fam i fagu plant, problemau iechyd meddwl ac ymddygiad celcio. Roedd y rhieni wedi gwahanu cyn yr achos ac fe aeth y plentyn i fyw gyda'r tad. Roedd y plentyn yn destun Gorchymyn Goruchwylio am flwyddyn.

Yn 2011, fe ddechreuodd y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn atgyfeiriadau yn nodi pryderon mewn perthynas â defnydd y rhieni o alcohol a dadleuon honedig rhwng y rhieni. Bu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymweld â'r rhieni a chanfuwyd bod y rhieni wedi cymodi. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod unrhyw asesiad rhianta wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnod hwn fel y nodwyd cyn yr achos. Ymddengys bod atgyfeiriadau dilynol wedi cael eu trin ar eu pen eu hunain, gydag asiantaethau yn ymateb i'r atgyfeiriadau, fodd bynnag, ymddengys bod yr achos wedi cael ei gau bob tro, heb unrhyw dystiolaeth bod y sefyllfa wedi cael ei datrys neu wedi gwella. Yn 2015, derbyniwyd atgyfeiriad gan y rhieni yn gofyn am gymorth, fodd bynnag, ni wnaeth y rhieni ymgysylltu â'r gwasanaethau a gynigiwyd, yn cynnwys y Nyrs Anableddau Dysgu a'r Clinig Cwsg. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rhieni wedi canslo sawl apwyntiad.

Bu i bresenoldeb y plentyn yn yr ysgol waethygu yn 2014 ac fe beidiodd â mynychu'r ysgol ar ôl mis Mawrth 2015. Darparwyd tiwtor cartref o fis Chwefror 2016 hyd at fis Tachwedd 2016. Ym mis Tachwedd 2016, nid oedd yr ysgol yn ymwybodol ei bod wedi dod yn gyfrifol am gynllun ailintegreiddio'r plentyn. O fis Tachwedd 2016 ymlaen, nodwyd bod y plentyn yn absennol ond bod hynny wedi'i awdurdodi, felly ni nodwyd diffyg presenoldeb ac ni ymatebodd yr Ysgol na'r Adran Addysg i'r sefyllfa. Mae dadansoddiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o ddiffyg presenoldeb y plentyn yn yr ysgol tan 2018.

Roedd y plentyn wedi bod yn agored i Gyflawni Newid Gyda'n Gilydd (TAC). Mae proses TAC yn ffordd o drefnu a chydlynu cymorth ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed a'u teuluoedd, sydd â nifer o wahanol anghenion ychwanegol sy'n gofyn am gymorth ataliol. Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys cyfarfodydd amlasiantaeth â'r rhieni.

O fis Gorffennaf 2015, hyd at ddechrau'r amserlen ym mis Mawrth 2017, cynhaliwyd 5 cyfarfod TAC gyda'r olaf o'r cyfarfodydd hynny yn cael ei gynnal ar 7 Mehefin 2016. Roedd tad y plentyn yn bresennol yn y 5 cyfarfod. Roedd mam y plentyn ond yn bresennol yn un o'r cyfarfodydd.

Er ei bod yn ymddangos fel eu bod yn gofyn am gymorth â'r plentyn, roedd ymgysylltiad y rhieni â'r gwasanaeth TAC yn wael ac nid oedd modd darparu'r gwasanaeth TAC. Roedd y dadansoddiad asiantaeth yn nodi bod y diffyg ymgysylltiad gan y teulu wedi'i gofnodi'n gyson gan TAC, ond roedd yn ymddangos, oherwydd

ymgysylltiad gwael â'r teulu, nad oedd wedi bod yn bosibl i gael sgwrs â'r teulu i ganfod y rheswm dros hynny.

Ym mis Mawrth 2017, bu i aelod o staff o ysgol y plentyn weld y plentyn a'r fam yn y gymuned ac roedd yr aelod o staff hwnnw yn pryderu am eu golwg. Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Addysg (GCA) wedi ceisio ymweld â'r cartref ond ni chafodd fynediad i'r eiddo. Roedd y GCA hefyd yn pryderu bod y tad i'w weld dan ddylanwad alcohol.

Bu i'r ysgol lunio dau Adroddiad Plentyn mewn Perygl ym mis Mawrth 2017. Nid oedd yr Adroddiadau hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gefndirol na chyd-destun mewn perthynas ag anghenion y plentyn a'r teulu. Cynhaliwyd ymholiadau cychwynnol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid oeddent yn nodi pryderon diogelu, fodd bynnag, roedd y teulu yn agored i TAC ac roedd y GCA yn gweithio gyda'r teulu.

Parhaodd TAC i geisio ymgysylltu â'r teulu ac oherwydd y gorbryder a adroddwyd mewn perthynas â'r plentyn a dieithriad, gwnaethpwyd penderfyniad i gynnal ymweliad ar y cyd ag unigolyn yr oedd y plentyn yn gyfarwydd ag ef. Gwnaed ymdrechion gan y swyddog TAC i drefnu ymweliadau ar y cyd, yn gyntaf oll gyda'r GCA ac yna cynrychiolydd o'r ysgol, ond fe wynebwyd rhai anawsterau yn ystod y broses o drefnu'r ymweliadau cartref oherwydd gwyliau blynyddol ac ymrwymadau eraill. Bu i'r diffyg ymateb gan y rhieni, wrth geisio gwneud galwadau i drefnu dyddiad i ymweld, oedi'r broses. Cydnabu, oherwydd yr anawsterau hyn, roedd oedi o 3 mis wrth geisio ymweld â'r tŷ a gweld y plentyn.

Ar y pryd, nid oedd yn arfer arferol i TAC gynnal ymweliadau dirybudd, fodd bynnag, oherwydd diffyg ymgysylltiad y rhieni a'r ffaith nad oedd unrhyw un wedi gweld y plentyn, penderfynwyd bod ymweliad dirybudd yn briodol. Fe arweiniodd yr ymweliad at lunio Adroddiad Plentyn mewn Perygl ac fe agorwyd yr achos i'r Tîm Asesu ac Ymyrryd a dechreuwyd Asesiad Cynhwysfawr ym mis Gorffennaf 2017.

Gwelwyd y plentyn yn ystod yr Asesiad ac fe ganiatawyd mynediad at y tŷ i'r Gweithiwr Cymdeithasol ac fe welodd ystafell wely'r plentyn. Rhoddwyd cyngor ar addasrwydd gwely'r plentyn a'r angen i dacluso. Cytunwyd yn ystod y Digwyddiad Dysgu bod y rhieni wedi tacluso digon ar y tŷ ac ystafell y plentyn yn barod ar gyfer ymweliad y gweithiwr cymdeithasol, fodd bynnag, nid oedd y tŷ cyfan wedi'i weld er mwyn cael y darlun llawn.

Ym mis Medi 2017, daeth yr Asesiad Cynhwysol i'r casgliad nad oedd pryderon diogelu ar y pryd. Roedd y rhieni i'w gweld yn agored i gymorth a gwnaethpwyd atgyfeiriadau at y gwasanaethau priodol. Gwnaethpwyd atgyfeiriadau at TAC, y Tîm Anabledau Dysgu Oed Ysgol a gwasanaethau cymunedol eraill.

Roedd yr achos wedi bod yn agored i TAC ers 2015, fodd bynnag, y tro hwn, ystyriwyd bod angen yr achos yn rhy uchel ar gyfer natur ataliol eu gwasanaeth. Rhwng 2015 a mis Gorffennaf 2017, ni chafwyd unrhyw sgwrs mewn perthynas â'r angen i uwchgyfeirio'r achos o TAC at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O fis Medi 2017 i fis Rhagfyr 2017, mae'r amserlen yn dangos y bu anghytundeb rhwng asiantaethau / timau ynglŷn â phwy ddylai fod yn gyfrifol am achos y plentyn.

Parhaodd yr asiantaethau i geisio ymgysylltu â'r teulu; fodd bynnag, parhaodd y teulu i ganslo apwyntiadau a chyfyngu mynediad i'r tŷ a mynediad at y plentyn. Nodwyd

bod rhesymau'r rhieni dros ganslo fel arfer yn gredadwy a derbyniwyd bod y plentyn yn ymateb yn wael pan oedd pobl yn ymweld â'r tŷ.

Mae'r gwasanaeth TAC wedi'i seilio ar fodel cydsyniad ac yn dibynnu ar gydweithrediad gan rieni. Roedd ymweliadau'r Gweithwyr Cymdeithasol hefyd yn ddibynnol ar ganiatâd gan y rhieni gan na chyrrhaeddwyd y trothwy ar gyfer perygl o Niwed Sylweddol tan 1 Mawrth 2018.

Roedd yn ymddangos bod derbyniad cyffredinol dros y blynyddoedd bod y plentyn a'r teulu angen gwasanaethau er mwyn helpu'r teulu i ddiwallu anghenion y plentyn.

Cafodd yr holl Adroddiadau Plentyn mewn Perygl eu derbyn a'u prosesu o fewn y canllawiau gofynnol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn nadansoddiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd adroddiadau o bosib' yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain ac yn cael eu cau heb unrhyw ddatrysiad amlwg i'r materion a godwyd. Nodwyd yr anawsterau mewn perthynas â chael mynediad at bapurau sydd wedi'u harchifo fel rhwystr posibl i gael y darlun llawn.

Daeth yr Asesiad Cynhwysol, a gwblhawyd ym mis Medi 2017, i'r casgliad, yn seiliedig ar yr wybodaeth oedd ar gael ar y pryd, nad oedd unrhyw bryderon diogelu. Roedd hefyd yn ymddangos bod llawer iawn o'r asesiad hwn yn dibynnu ar y ffaith bod y rhieni yn gofyn am gymorth ac yn barod i dderbyn hynny gan yr holl wasanaethau. Gwnaethpwyd atgyfeiriadau at y gwasanaethau hynny ac fe ailddyranwyd yr achos i TAC unwaith eto.

Bu i'r asesiad hwn hefyd nodi'r angen am wasanaethau penodol ar gyfer unigolion ag anableddau o ran rheoli ymddygiad; gwnaethpwyd atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Iechyd Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Anableddau Gwaith Cymdeithasol Awdurdod Lleol. Ar 15 Tachwedd 2017, gwrthodwyd yr atgyfeiriad hwn gan y Gwasanaeth Iechyd Anableddau Dysgu, oherwydd y farn bod angen cydlynnydd gofal. Nodwyd, unwaith eto, mae'r swyddog TAC fyddai'r cydlynnydd gofal. Mae hyn yn gwrth-ddweud yr wybodaeth ar Gronfa Ddata'r Awdurdod Lleol sy'n amlinellu bod yr anghenion yn rhy uchel ar gyfer TAC. Ar 24 Tachwedd 2017, hysbyswyd y Gwasanaeth TAC o'r pryderon mewn perthynas â diffyg ymgysylltiad y teulu â'r gwasanaethau unwaith eto, ac fe aseswyd nad oedd y Gwasanaeth TAC yn cynnig y cymorth priodol ar gyfer y teulu. Gwnaethpwyd cais i ystyried yr atgyfeiriad at y Gwasanaeth Anableddau Gwaith Cymdeithasol Awdurdod Lleol. Ar 14 Rhagfyr 2017, cytunwyd ar fewnbwn y Gwaith Cymdeithasol Penodol i Anableddau ochr yn ochr â'r cymorth ymddygiadol, fodd bynnag, gan fod yr achos wedi cael ei drosglwyddo heb unrhyw bryder diogelu cafodd y cyswllt cyntaf ei oedi.

Cytunwyd yn ystod y Digwyddiad Dysgu y buasai'r sefyllfa wedi elwa o gael ei huwchgyfeirio at uwch reolwr er mwyn ystyried y materion a gwneud penderfyniad cynt o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am yr achos.

Ar 14 Rhagfyr 2017, cytunodd y Tîm Iechyd ac Anableddau Plant i dderbyn yr achos ac ar 8 Ionawr 2018 dyrannwyd Gweithiwr Cymdeithasol o'r tîm. Ar 18 Ionawr 2018, ymwelwyd â'r cartref, gwelwyd y plentyn a gwir gyflwr yr eiddo. Mynegwyd pryderon fod y plentyn yn ynysig iawn ac roedd pryderon ynghylch iechyd meddwl a datblygiad y plentyn. Mae cyfranogiad blaenorol wedi amlygu pryderon ynghylch camddefnydd y rhieni o alcohol a sylweddau. Nid oedd modd cael mynediad at dair o bedair ystafell

wely yn yr eiddo oherwydd yr holl eiddo personol oedd yno. Cadarnhaodd y rhieni eu bod nhw a'r plentyn yn cysgu ar y soffa.

Ar 1 Chwefror 2018, cysylltodd y Gweithiwr Cymdeithasol â'r holl asiantaethau perthnasol ac fe gynhaliwyd cyfarfod amlasiantaeth. Cynhaliwyd ymweliadau ar y cyd rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol a naill ai Cynrychiolwyr Iechyd neu Gynrychiolwyr Addysg. Ceisiodd y rhieni ganslo neu gyfyngu ymweliadau, fodd bynnag, dyfalbarhaodd y gweithwyr, a gwelwyd y plentyn a'r eiddo ar bob ymweliad.

Ar 24 Chwefror 2018, derbyniwyd Adroddiad Plentyn mewn Perygl gan y Gwasanaeth Tân, yn dilyn tân bychan yn yr eiddo. Roedd criw'r Gwasanaeth Tân yn bryderus am gyflwr y tŷ a chyflwyniad y rhieni a gwnaed yr adroddiad yn unol â Phrotocol Celcio Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Oherwydd yr holl eiddo yn y cartref, nid oedd yn hawdd nodi ffynhonnell y tân.

Ar 1 Mawrth 2018, cynhaliwyd Cyfarfod Strategaeth (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008) a dechreuwyd ymchwiliad Adran 47 (Deddf Plant 1989). Ar 5 Mawrth 2018, bu i'r pryderon ddwysáu ac fe gynhaliwyd trafodaeth strategaeth bellach. Gofynnwyd am ymweliad ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a thrafodwyd yr ystyriaeth o orchymyn Diogelu'r Heddlu, fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthod gan yr Heddlu oherwydd nad oeddent yn teimlo fod hyn yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer Gorchymyn Diogelu'r Heddlu.

Gofynnodd y Gwasanaethau Cymdeithasol am gael Cyfarfod Cynllunio Cyfreithiol a pharhau i ofyn am ymweliadau ar y cyd gyda'r Heddlu. Ar 7 Mawrth 2018, gofynnodd y Gwasanaethau Cymdeithasol am gynnal archwiliad meddygol amddiffyn plant yn y cartref oherwydd bod y plentyn yn dueddol o gynhyrfu, ac am nad oedd wedi gadel y cartref ers misoedd lawer. Ystyriwyd hyn gan Bediatregydd, ond fe benderfynwyd y byddai er lles y plentyn i gynnal yr archwiliad hwn mewn amgylchedd mwy priodol. Cynhaliwyd yr archwiliad hwn ar 8 Mawrth, 2018, ar ôl symud y plentyn o'r cartref, mewn clinig.

Ar 7 Mawrth 2018, symudwyd y plentyn o'r cartref gyda chymorth yr Heddlu, wedi i'r rhieni gytuno i leoliad gwirfoddol o dan A76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Barn y Teulu

Ers i'r plentyn symud o'r cartref mae'r rhieni wedi gwahanu. Cytunodd y ddau riant i gael eu cyfweld a gwelwyd y ddau ohonynt yn annibynnol gan y ddau Adolygydd.

Bu i'r ddau riant gadarnhau, yn annibynnol o'i gilydd, bod y tad yn ddibynnol ar alcohol, yn yfed yn drwm a phur anaml yr oedd yn sobor pan oedd y plentyn yn byw â nhw. Bu i'r ddau riant gadarnhau bod ymddygiad celcio'r fam allan o reolaeth. Honnodd y fam bod y plentyn wedi bod yn dyst i drais domestig rhwng y rhieni. Honnodd y tad bod y berthynas â mam y plentyn yn amrywiol ac nad oedd yn gallu bod yn atebol am ei ymddygiad pan oedd wedi meddwi ond dealodd ei fod yn dueddol o wylltio.

Bu i'r ddau riant gydnabod nad oedd bywyd y plentyn fel y dylai fod, roeddent eisiau i'r plentyn fod yn hapus ac yn yr ysgol gyda ffrindiau. Roeddent hefyd yn cydnabod eu bod wedi bod yn poeni'n arw y byddai'r plentyn yn cael ei dynnu oddi arnynt pe bai pobl yn dod i wybod am eu cam-driniaeth o alcohol, yr ymddygiad celcio a'r trais domestig, oherwydd bod y plentyn wedi cael ei symud o'r cartref yn y gorffennol.

Cydnabu'r rhieni eu bod wedi gofyn am gymorth ond yna wedi'i wrthod pan gafodd ei gynnig. Cadarnhaodd y rhieni eu bod wedi gwrthod gadael pobl i mewn i'w cartref ac eu bod wedi canslo apwyntiadau er mwyn cuddio'r ymddygiad celcio a cham-driniaeth y tad o alcohol. Dywedodd y rhieni eu bod wedi dod yn dda iawn am yrru pobl ymaith ac roeddent yn aml yn ei gweld hi'n ddifyr mor hawdd oedd 'troi pobl ymaith'. Yn ôl y rhieni, ar ôl iddynt droi rhywun ymaith, pur anaml oedd yr unigolyn hwnnw'n dychwelyd.

Cadarnhaodd y fam eu bod wedi dweud wrth y plentyn am sgrechian pan oedd pobl yn dod i'r tŷ. Dywedodd hefyd eu bod yn arfer clirio'r eitemau oedd ar ben y grisiau ac yn cyntedd a'u rhoi mewn ystafelloedd eraill, os oeddent yn gwybod y byddai rhywun yn ymweld â nhw.

Mae'r rheini bellach yn credu mai symud y plentyn o'r cartref oedd y penderfyniad cywir i'w wneud. Maent yn credu bod y plentyn yn derbyn gwell gofal ac yn datblygu'n dda.

Y Plentyn

Bu i'r ddau Adolygydd weld y plentyn yn y cartref preswyl. Nid oes gan y plentyn y gallu i ddeall pwrpas yr Adolygiad Ymarfer Plant na rôl yr Adolygwyr, felly pwrpas yr ymweliad oedd i arsylwi'r plentyn a dod yn gyfarwydd ag anghenion y plentyn.

Roedd yr wybodaeth am y plentyn a dderbyniwyd o'r gwaith papur, fel rhan o'r adolygiad hwn, yn nodi bod y plentyn yn cynhyrfu ym mhresenoldeb dieithriad, yn ynysig, yn ofni mynd allan, yn orbryderus am yr ysgol a bod ei sgiliau hunanofal a chyfathrebu yn wael.

Yn ystod yr ymweliad, roedd yr adolygwyr yn falch iawn o weld person ifanc dymunol, a oedd yn gymdeithasol, yn siaradus ac yn chwilfrydig iawn. Mae'r plentyn bellach yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac mae ganddi berthynas dda iawn â'i chyfoedion. Mae gan y plentyn berthynas dda â'r gweithiwr cymdeithasol ac mae'n mwynhau archwilio'r ardal leol ac ymgymryd â gweithgareddau.

Digwyddiad Dysgu

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 11/7/19. Roedd Cadeirydd y Panel Adolygu, y ddau Adolygydd a Chydlynnydd Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn bresennol ar gyfer y digwyddiad.

Yn y Digwyddiad Dysgu, roedd y broses o archwilio gwaith rhyngasiantaethol yn fanwl a'r ddysg a hwyluswyd yn gyfle i ymarferwyr fyfyrion, ac o ganlyniad, fe ddaeth dysg ehangach i'r amlwg am y ffyrdd y mae gwasanaethau yn cydweithio.

Roedd naw cynrychiolydd o'r asiantaethau canlynol yn bresennol yn y digwyddiad dysgu:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Iechyd
- TAC

- Y Gwasanaeth Tân
- Ysgol

- Gwasanaethau Lles Cymdeithasol Addysg

Tynnodd y digwyddiad dysgu sylw at arferion da, a oedd yn cynnwys cydweithio rhwng staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, lechyd ac Addysg tuag at ddiwedd yr amserlen.

Nododd oruchwyliaeth TAC yn benodol gyda chynlluniau gweithredu clir fel arferion da.

Roedd y cyfarfod amlasiantaeth a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018 yn ganolog o ran symud yr achos yn ei flaen. Bu i'r rhieni nodi a chydabod dyfalbarhad y gweithiwr cymdeithasol.

Mae sawl gweithiwr proffesiynol yn y cyfarfod wedi gwneud sylw o ran gwerth gweld y gronoleg amlasiantaeth yn cael ei llunio fel rhan o'r adolygiad. Teimlwyd y gallai hwn fod yn offeryn defnyddiol i'w ddefnyddio gan asiantaethau wrth adolygu achosion eraill.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Nodwch bob pwylt dysgu unigol yn sgil yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol ac amlinellad bras o'r amgylchiadau perthnasol).

Cydymffurfio Cudd / Chwilfrydedd Proffesiynol

Trwy gydol yr amserlen, mae tystiolaeth o ymgysylltiad achlysurol gan y rhieni, yn gyffredinol drwy ymgysylltiad asiantaeth â'r tad. Mae cydymffurfio cudd yn golygu bod y rhieni yn ymddangos fel eu bod yn cydweithredu ag asiantaethau er mwyn peidio â chodi amheuan a thawelu pryderon. Yn ystod ymchwiliad Victoria Climbié (2003), awgrymodd yr Arglwydd Laming bod angen i Weithwyr Cymdeithasol ymarfer 'ansicrwydd parchus', gan werthuso unrhyw wybodaeth a ddaw i law a bod â meddwl agored. Er i'r Arglwydd Laming gyfeirio at Weithwyr Cymdeithasol yn unig, mae hyn yn berthnasol i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â theuluoedd.

O fewn yr adolygiad hwn, gellid bod wedi cwblhau gwerthusiad beirniadol mewn perthynas â'r sail resymegol dros ymgysylltiad gwael, amharodrwydd rhieni i ganiatáu i weithwyr proffesiynol gael mynediad i'r cartref ac unigolion sy'n ymddieithrio ar ôl derbyn gwasanaethau. Nid yw'n glir bod gweithwyr proffesiynol wedi gofyn y cwestiwn 'pam'.

Roedd sawl adeg o fewn yr adolygiad lle ddylai'r tîm TAC fod wedi uwchgyfeirio achosion o ymgysylltiad gwael y teulu yn eu gwasanaeth at y rheolwyr. Fe wnaeth hyn achosi i bethau lithro am gyfnodau hir.

Byddai wedi bod yn fuddiol pe bai elfen o chwilfrydedd proffesiynol wedi cael ei harfer yn yr achos. Mae'r Arglwydd Laming yn disgrifio chwilfrydedd proffesiynol yn Ymchwiliad Victoria Climbié 2003 fel "y gallu i archwilio a deall yr hyn sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau neu dderbyn pethau ar eu golwg. Mae hyn yn cynnwys nodi ac archwilio'r hyn nad ydyw'n cael ei drafod, cymaint â'r hyn sy'n cael ei drafod." Mae'r adolygiad hwn wedi nodi na fu i weithwyr proffesiynol weithredu â meddwl agored, meddylfryd ymchwilgar a chwilfrydig mewn perthynas â chael mynediad at y cartref a gweld y plentyn. Bu i'r rheini atal mynediad y gweithwyr proffesiynol at yr eiddo gan ddefnyddio esgusion amrywiol a bu i'r gweithwyr proffesiynol dderbyn yr esgusion hyn.

Yn ystod cyfweiliad yr Adolygwyr â'r fam, bu iddi gyfaddef bod y staff yn

'hawdd iawn i'w troi ymaith'. Hefyd, roedd gweithwyr proffesiynol yn rhy barod i dderbyn sail resymegol y rhieni dros ymddygiad gofidus a holl sgrechian y plentyn a oedd yn rhwystro gweithwyr proffesiynol rhag dod i mewn i'r cartref.

Celcio

Roedd y teulu eisoes yn hysbys ac roedd problemau mewn perthynas â Chelcio, Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni a Thrais Domestig wedi cael eu hamlygu yn y gorffennol, er nid oedd y pryderon yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi'u huwchgyfeirio y tu hwnt i atgyfeiriadau cychwynnol a chyfarfodydd TAC. Yn ystod y cyfnod hwn ni wnaeth y gwasanaeth TAC gynnwys ymweliad â chartref y teulu. Roedd y Tiwtor Cartref yn cael mynd i mewn i'r cartref am beth amser ond ni cheisiwyd ei barn am anghenion y plentyn ac amgylchiadau'r cartref.

Roedd yr ymdrechion a wnaed i ymweld â'r cartref yn aml yn aflwyddiannus, arferai'r rhieni wneud esgusion er mwyn atal mynediad i'r gweithwyr proffesiynol. Byddai hyn naill ai ar ffurf gwrthod agor y drws, honni nad oedd ganddynt allwedd ar gyfer y drws ffrynt, caniatáu mynediad i'r cyntedd yn unig; clirio ardaloedd penodol rhag ofn i rywun ymweld a honni bod y plentyn yn sâl neu'n rhy bryderus i adael rhywun i mewn i'r tŷ. Gwnaethpwyd honiadau bod y plentyn yn gofidio os oedd unrhyw un yn mynd i fyny'r grisiau. Nid oedd unrhyw un wedi gallu cael mynediad at y tŷ cyfan yn ystod yr amserlen er mwyn pennu natur y broblem Celcio.

Ar 24 Chwefror bu i'r Gwasanaeth Tân ymweld â'r eiddo ac yn dilyn eu hasesiad o'r eiddo a'r rhieni, bu iddynt gyflwyno atgyfeiriad diogelu yn unol â Phrotocol Diogelu Gogledd Cymru ar Gelcio.

Nid oedd graddau'r celcio wedi eu deall yn llawn, nac ychwaith bod y rhieni yn camddefnyddio sylweddau i'r fath raddau, yn enwedig dibyniaeth y tad ar alcohol. Nid oedd y rhieni yn derbyn unrhyw wasanaethau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl.

Teimlwyd bod ffactorau risg sylweddol yn bresennol i rybuddio gwasanaethau o'r problemau sylfaenol:

- Eithrio Cymdeithasol
- Cam-drin Domestig
- Tlodi / tai gwael
- Bod yn dyst i ddadleuon
- Methu cydymffurfio â thriniaeth / meddyginiaeth
- Anghenion corfforol sylfaenol y plentyn heb eu diwallu
- Anghenion emosiynol y plentyn heb eu diwallu
- Apwyntiadau iechyd heb eu ceisio
- Amhariad ar addysg y plentyn
- Anghenion y plentyn heb eu cydnabod gan y darparwyr gofal

Cyfeirnod: Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni; Polisi Aml-asiantaeth Gogledd Cymru– Rhieni gyda phroblemau iechyd difrifol a/neu'n camddefnyddio sylweddau. 14/7/17

Mae'r gwasanaeth TAC bellach wedi adolygu ei arferion ac mae ymweliadau cartref cychwynnol arferol

yn cael eu cynnal ar ôl derbyn atgyfeiriadau. Mae ymweliadau cartref parhaus, yn cynnwys ymweliadau cartref dirybudd, hefyd yn rhan o'r arfer bresennol, pan fo asesiad yn dangos bod yr ymweliadau hyn yn gyfiawn ac yn rhan o waith rheoli'r achos.

Addysg

Dechreuodd y plentyn fethu'r ysgol ym mis Medi 2014 ac fe aeth i'r ysgol am y tro olaf ym mis Mawrth 2015. Fe weithiodd staff yr ysgol a'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg yn agos iawn i gefnogi'r teulu â phresenoldeb y plentyn. Bu iddynt ymgymryd ag ymagwedd gydymdeimladol, di-gosb tuag at reoli presenoldeb y plentyn. Roedd y penderfyniad hwn yn golygu bod y plentyn yn cael ei ystyried "y tu hwnt i reolaeth y rhieni" ac felly ni wnaed unrhyw ymgais i erlyn y rhieni am y ffaith nad oedd y plentyn yn derbyn addysg. Bu i'r ysgol atgyfeirio'r plentyn at y Gwasanaethau Iechyd a Chamu'n ôl ar ôl gwneud yr atgyfeiriad hwn.

Dyrannwyd tiwtor cartref i'r plentyn ym mis Chwefror 2016. Rhwng mis Chwefror 2016 a mis Gorffennaf 2016, fe dderbyniodd y plentyn 25 sesiwn o diwtora yn y cartref ac yna fe benderfynodd y rhieni ganslo'r gwasanaeth

Ar sawl achlysur, roedd y plentyn yn cysgu pan gyrhaeddodd y tiwtor. Roedd y plentyn yn aml yn dal mewn pyjamas ac fe ddywedodd y tiwtor bod y rhieni yn gyndyn o ddeffro a gwisgo'r plentyn. Dewiswyd y tiwtor gan fod yr unigolyn yn diwtor cartref profiadol a allai ddarparu mewnwelediad sensitif i fywyd yr aelwyd. Anfonodd y tiwtor adroddiadau wythnosol yn trafod y sesiynau tiwtora yn y cartref a'i phryderon ynglŷn â'r sefyllfa. Nid yw'n glir pa ddefnydd a wnaed o'r wybodaeth hon.

O fis Medi 2016 i fis Awst 2017, nodwyd bod presenoldeb y plentyn yn 99.47% o absenoldeb awdurdodedig. Yn ystod y cyfnod hwn, fe dderbyniodd y plentyn 6 o sesiynau tiwtora yn y cartref ac fe ganslodd y rhieni 9 sesiwn.

Fe ddaeth y sesiynau tiwtora yn y cartref i ben ym mis Tachwedd 2016, gan nad oedd yr Adran Addysg yn gyfrifol am y ddarpariaeth a gwnaethpwyd penderfyniad mai cyfrifoldeb yr ysgol oedd darparu ar gyfer addysg y plentyn. Nid oedd yr Ysgol yn ymwybodol bod y sesiynau tiwtora yn y cartref wedi dod i ben ac nid oeddent ychwaith yn ymwybodol mai eu cyfrifoldeb nhw oedd ailgyflwyno'r plentyn i'r ysgol.

Yn 2017/18 roedd presenoldeb y plentyn wedi nodi fel 99.46% gan yr ysgol gyda gweithgarwch addysgol cymeradwy, pan oedd y plentyn gartref a ddim yn derbyn unrhyw addysg.

Roedd cael ei nodi'n bresennol yn golygu nad oedd y plentyn yn cael ei ystyried fel plentyn a oedd angen gwasanaeth Gweithiwr Cymdeithasol Addysg oherwydd diffyg presenoldeb. Roedd yr ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am gynllun presenoldeb y plentyn. Yn ystod y cyfnod dan sylw roedd newidiadau sylweddol wedi bod i bersonél a / neu rolau yn yr ysgol a gwasanaeth y GCA.

Ers hynny, mae'r Ysgol a'r Gwasanaeth GCA wedi myfyrio ar hyn ac mae newidiadau wedi cael eu gwneud. Mae'r ysgol wedi penodi swyddog presenoldeb sydd hefyd yn arwain ar faterion diogelu. Mae protocol newydd ar gyfer rheoli cynlluniau presenoldeb

ac mae proses drosglwyddo wedi'i sefydlu i sicrhau trosglwyddiad di-dor o ran cyfrifoldeb rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth GCA. Mae protocol cytunedig ar gyfer cofnodi absenoldebau ac mae Polisi Bugeiliol newydd wedi'i lansio gan alluogi'r Gwasanaeth GCA i fonitro'r plant sy'n absennol o'r ysgol a'r rheiny a gofnodwyd yn bresennol ond gyda gweithgarwch addysgol cymeradwy.

Mae gwasanaethau tiwtora yn y cartref bellach ar gontract allanol ac mae darpariaeth wedi'i gwneud o fewn y gwasanaeth comisiynu i sicrhau bod yr holl diwtoriaid cartref yn derbyn goruchwyliaeth ac yn mynychu hyfforddiant diogelu.

Anabledd

Cafodd y plentyn ddiagnosis o Awtistiaeth ac Anableddau Dysgu. Mae'r plentyn yn destun Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig.

Gwnaeth y rhieni honiadau bod y plentyn yn cynhyrfu ac yn orbryderus pan oedd ymwelwyr yn dod i'r cartref, yn enwedig pan oedd yr ymwelwyr hynny yn mynd fynyr grisiau. Roedd y plentyn i'w glywed yn sgrechian. Mynegodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref, bryder ynglŷn â pheri gofid i'r plentyn, ac roedd hyn yn rwystr wrth geisio cael mynediad i'r tŷ a gweld y plentyn. Esboniodd y rhieni fod gorbryder ac ymddygiad y plentyn yn symptom o anabledd y plentyn.

Roedd barn yr ysgol am y plentyn, pan arferai fynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn wahanol iawn i'r hyn a oedd yn cael ei bortreadu yn fwy diweddar. Yn ôl yr ysgol, pan arferai'r plentyn ddod i'r ysgol roedd yn hapus a bodlon ac nid oedd unrhyw broblemau.

Mynegwyd cydymdeimlad â'r rhieni ynglŷn â'r ffaith fod y plentyn rheoli amgylchedd y cartref a bod hyn yn anodd iawn i'r rhieni ei reoli.

Yn flaenorol, roedd y Gwasanaethau Addysg wedi dewis ymgymryd ag ymagwedd ddi-gosb tuag at sefyllfa'r rhieni a oedd yn golygu nad oedd y plentyn yn cael ei gydnabod fel plentyn a oedd yn absennol o'r ysgol / addysg.

Mae Polisi Diogelu Plant Anabl – Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cydnabod yr anawsterau o ran priodoli dangosyddion cam-driniaeth neu esgeulustod neu amharodrwydd i weithredu ar bryderon mewn perthynas â phlant anabl, yn cynnwys:

- Uniaethu'n ormodol â rhieni / gofalwyr y plentyn a bod yn amharod i dderbyn bod achos o gam-driniaeth neu esgeulustod yn digwydd / wedi digwydd neu'n priodoli hyn i'r straen a'r anhawster o ofalu am blentyn anabl.
- Diffyg gwybodaeth am effaith yr anabledd ar y plentyn.
- Cymysgu ymddygiadau a all ddangos bod plentyn yn cael ei gam-drin â'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd y plentyn.

P'un ai oedd ymddygiad y plentyn yn symptom o'r anabledd neu p'un ai oedd y plentyn wedi cael ei orfodi i ymddwyn felly gan y rhieni, fe ddylanwadodd ymddygiad y plentyn ar weithredoedd y gweithwyr proffesiynol a ddaeth i'r cartref gan dynnu'u sylw, o bosib, oddi wrth gwneud asesiad cynnar o achosion neu bryderon sylfaenol a chuddio neu rwystro chwilfrydedd proffesiynol priodol mewn perthynas â phryderon.

Ar 5 Mawrth 2018, unwaith eto, fe geisiodd y rhieni cyfyngu mynediad y gweithwyr proffesiynol at y plentyn gan fod y plentyn yn orbryderus ac yn sgrechian oherwydd hynny. Nodwyd yn y Digwyddiad Dysgu bod y Nyrs Anabledd Dysgu wedi dweud wrth y rhieni bod y plentyn eisoes wedi cynhyrfu mewn perthynas â'u presenoldeb ac felly nid oedd unrhyw beth i'w ennill drwy beidio â gweld y plentyn. Bu i'r Nyrs Anabledd Dysgu a'r Gweithiwr Cymdeithasol arsylwi'r plentyn ar 5 a 6 Mawrth 2018, a'i gweld hi'n gorwedd ar y sofa ar y ddau ddiwrnod, roedd ei gwallt yn fudr ac yn glymau i gyd ac roedd yn edrych yn denau i'w hoed.

Llais y Plentyn

Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i ystyried wrth drafod materion sy'n effeithio arno a materion sy'n effeithio ar ei deulu. Mae hefyd yn anelu i wella safon y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd, gan arwain at ganlyniadau gwell, ynghyd â defnydd gwell o adnoddau a chysondeb gwell ar draws y gwasanaeth. O safbwynt cyfreithiol, mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu clywed. Atgyfnerthir hyn yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) sy'n nodi bod gan blentyn yr hawl i gael ei glywed ac i'w farn gael ei hystyried mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio arno.

Gall plant rhwng 11 a 25 mlwydd oed o fewn yr Awdurdod Lleol gael mynediad at y Gwasanaeth Eiriolaeth Ail Lais. Cynigiwyd y gwasanaeth hwn i'r plentyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ond fe wrthodwyd y gwasanaeth gan y rhieni ac nid oedd gan y plentyn y gallu i gael mynediad at y gwasanaeth yn annibynnol oherwydd yr anabledau dysgu.

Yn ystod yr Adolygiad hwn, ychydig iawn o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y gweithwyr proffesiynol wedi ystyried llais y plentyn. Mae'n amlwg bod cysylltiad cyfyngedig â'r plentyn oherwydd ymddygiad y rhieni wedi cael effaith ar hyn. Ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i sut oedd y plentyn pan oedd mewn addysg llawn amser, sef plentyn hapus, a'r newid cyflym i'r ymddygiad pan oedd gartref.

Cyngor Cyfreithiol

Tuag at ddiwedd yr amserlen, cafwyd sawl trafodaeth rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu mewn perthynas â'r broses o symud y plentyn o'r cartref a'r broses gyfreithiol briodol i symud y plentyn. Pe na bai'r rhieni wedi caniatáu i'r plentyn gael ei symud o'r cartref, byddai'r dewis o gyflwyno Gorchymyn Diogelu'r Heddlu neu Orchymyn Amddiffyn Mewn Argyfwng wedi cael ei ystyried.

Cytunwyd y byddai cyngor cyfreithiol wedi bod yn fuddiol er mwyn cynghori'r swyddogion ar y camau gweithredu mwyaf priodol ac a fyddai symud y plentyn dan orchymyn arall yn fwy priodol e.e. o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol: Deddf Iechyd Meddwl.

Tebygrwydd ag Adolygiad Achos Difrifol blaenorol

Bu i'r panel ystyried yr Adolygiad Achos Difrifol a gynhaliwyd gan Fwrdd Lleol Diogelu Sir y Fflint a gyhoeddwyd ar 11/1/12.

Roedd gan achos SD nodweddion tebyg iawn i'r achos hwn:

- Roedd yn ymddangos bod y rhieni yn agored i arweiniad a chymorth i ddechrau
- Lefel o ymgysylltu gan y rhieni yn lleihau dros amser
- Cyswllt proffesiynol cyfyngedig â'r teulu
- Diffyg ymgysylltiad y plentyn ag iechyd ac addysg
- Amharodrwydd y gweithiwr proffesiynol i ymyrryd mewn ffyrdd a fyddai'n cynyddu straen ar gyfer y teulu
- Awydd i ymddwyn yn sensitif tuag at deimladau'r rhieni
- Diffyg cyfathrebu rhwng asiantaethau

Mae'r adroddiad yn 2012 yn dod i'r casgliad:

Bod rhaid i ymarferwyr fod yn ymwybodol bod plant anabl yn fwy agored i gam-drin ac esgeulustod ac yn ymwybodol hefyd o'r arwyddion cynnar sy'n awgrymu y gallai plentyn ag anabledau ddioddef niwed sylweddol.

Mae'n rhaid i rieni gael cefnogaeth i'w helpu i ddiwallu anghenion eu plant anabl. Fodd bynnag, mae angen eu herio os oes pryderon nad oes ganddynt y gallu i ddiwallu'r anghenion hyn.

Nid yw'r ffaith fod rhieni'n dewis addysgu eu plant yn y cartref yn golygu nad oes ar yr awdurdod lleol gyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen.

Dylai'r unigolion sy'n gweithio i wasanaethau cymdeithasol plant ac yn derbyn ymholiadau cychwynnol yn ymwneud â diogelu neu atgyfeiriadau mewn perthynas â phlant anabl, feddu ar brofiad digonol a chymhwysedd mewn gwaith amddiffyn plant i sicrhau bod pryderon ynglŷn â phlant anabl yn cael trin yn yr un modd â phryderon am blant nad ydynt yn anabl.

Gwnaed sawl argymhelliad mewn perthynas â'r adolygiad o'r polisi sy'n ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol a datblygu cysylltiadau gwell rhwng Addysg a'r Tîm Nyrsio Ysgolion.

Cyfeirnod Adolygiad Achos Difrifol, SD. Adolygiad Achos Difrifol Sir y Fflint a gyhoeddwyd ar 11/1/12.

Casgliad

Mae'r adolygiad hwn yn tynnu sylw amlwg at blentyn ag anabled a ddioddefodd esgeulustod corfforol ac emosïynol dan ofal rhieni â dibyniaeth ar sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.

Nodwyd tystiolaeth glir drwy gydol y broses adolygu bod y plentyn a'r teulu angen cymorth er mwyn diwallu anghenion y plentyn, ond er gwaethaf y cynnig o gymorth gan weithwyr proffesiynol, roedd yn ymddangos bod diffyg cytundeb o ran pa wasanaeth fyddai'n diwallu eu hanghenion orau. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y rheini wedi gofyn am gymorth ond pan gynigiwyd y gwasanaethau, roedd y rhieni yn ei chael hi'n anodd eu derbyn. Ymddengys bod hyn mewn perthynas â gorfod caniatáu i weithwyr proffesiynol ddod i mewn i'w cartref ac ymweld â'u plentyn gan eu bod yn ofni'r canlyniadau. Roeddent yn ofni y byddai eu dibyniaeth ar alcohol a'u hymddygiad celcio yn dod i'r amlwg ac y byddai'r plentyn yn cael ei symud o'r cartref.

Bu i'r Adolygwyr ganfod bod y diffyg craffu ar y cynllun addysgol ar gyfer y plentyn yn rhan hanfodol o'r achos ac maent yn cydnabod bod yr ysgol a'r gwasanaeth AGC wedi myfyrio ar hyn a bod newidiadau eisoes wedi'u gwneud.

Nodwyd hefyd y caniatwyd i'r achos hwn lithro gan TAC heb unrhyw dystiolaeth o drosglwyddo'r achos i'r rheolwyr. Gan na chafwyd unrhyw ymateb gan y teulu, gwnaethpwyd llai o ymdrech i gysylltu.

Mae'r Adolygwyr wedi nodi gwersi i wella arferion yn y meysydd canlynol:

- Cydymffurfio Cudd a Chwilfrydedd Proffesiynol
- Diogelu Plant ag Anableddau
- Adnabod ac Ymdrin ag Ymddygiad Celcio
- Adnabod ac Ymdrin â Rhieni yn Camddefnyddio Sylweddau.

Roedd sawl ffactor o fewn yr adolygiad a gyfrannodd at oedi o ran gallu nodi ac ymateb i anghenion y plentyn ac mae'n destun gofid nad oedd modd datrys sefyllfa'r plentyn yn gynt. Bu i'r ffactorau hyn hefyd gyfrannu at yr anallu i glywed llais y plentyn.

Hoffai'r adolygwyr nodi eu gwerthfawrogiad i'r rhieni a ddarparodd hanes mewn perthynas â'u sgiliau rhianta, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad celcio a thrais domestig a sut y bu i hyn effeithio ar y plentyn. Yn ogystal â hynny, bu iddynt ddarparu cadarnhad eu bod wedi mynnu rhwystro ymgais y gweithwyr proffesiynol i asesu'r sefyllfa ac i helpu. Mae'r adolygwyr yn cydnabod bod yr ymddygiad hwn wedi cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth gan yr ymarferwyr.

Hoffai'r adolygwyr gydnabod y cyfraniad a wnaed at y broses hon gan yr holl asiantaethau. Gwerthfawrogi eu cyfranogiad a'u cydweithrediad.

I ychwanegu casgliad terfynol, roedd yr adolygwyr o'r farn y byddai'n briodol gorffen yr adolygiad hwn ar nodyn cadarnhaol a rhoi darlun clir o les y plentyn. Mae'r plentyn bellach yn hapus ac yn ffynnu, ym mwynhau'r ysgol a phob gweithgaredd. Mae'r ddau riant yn cydnabod bod y plentyn bellach yn derbyn y gofal sy'n angenrheidiol, y gofal nad oeddent, yn anffodus, yn gallu'i ddarparu.

Gwella Systemau ac Ymarfer



Er mwyn hyrwyddo'r dysgu yn sgil yr achos hwn mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau yn ogystal â'r canlyniadau gwelliant a ragwelir:


Argymhellion

1. Datblygu Protocol Amlasiantaeth - Gweithio â Theuluoedd sy'n Dangos Cydymffurfedd Cudd - BDPGC
2. Sefydlu Protocol Rhanbarthol i gydnabod plant nad ydynt mewn addysg a monitro cynlluniau presenoldeb - Addysg
3. Codi ymwybyddiaeth am Brotocol Celcio BDPGC Amlasiantaeth
4. Adolygu Polisi Diogelu Plant Anabl BDPGC a sicrhau

- bod llais y plentyn yn cael ei glywed - BDPGC
5. TAC i adolygu eu prosesau presennol o ran rheoli diffyg ymgysylltiad teuluoedd ac uwchgyfeirio achosion at reolwyr.

**Datganiad
gan yr
Adolygydd /
Adolygwyr**

| ADOLYGYDD 1 | ADOLYGYDD 2 |
|--|--|
| <p>Datganiad annibyniaeth o'r achos</p> <p><i>Sicrwydd Ansawdd datganiad cymhwyster</i></p> | <p>Datganiad annibyniaeth o'r achos</p> <p><i>Sicrwydd Ansawdd datganiad cymhwyster</i></p> |
| <p>Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol i'r ymarferwr/wyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad. <p>Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.</p> | <p>Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol i'r ymarferwr/wyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad. <p>Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.</p> |
| <p>Adolygwr 1:  (Llofnod)</p> | <p>Adolygwr 2:  (Llofnod)</p> |
| <p>Enw: Chris Weaver (Print)</p> | <p>Enw: Val Owen (Print)</p> |
| <p>Dyddiad: 11/02/2020</p> | <p>Dyddiad: 11/02/2020</p> |

| | |
|--|--|
| Cadeirydd y Panel Adolygu: (Llofnod) |  |
|--|--|

Enw: *(Print)*
Dyddiad:

Claire Lister
13/02/2020

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn yr wybodaeth.....

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd.....

Dyddiad dosbarthu i'r arolygwyr / Arweinwyr Polisi perthnasol

| Asiantaethau | Ia | Na | Rheswm |
|--|----|----|--------|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi | | | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | | | |

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno (Atodiad 1)

Rhagarweiniad

Comisiynwyd yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn dilyn argymhelliad Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Panel Adolygu amlasiantaeth a Chadeirydd y Panel Adolygu, Claire Lister wedi'u nodi gan y Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol. Mae dau adolygydd hefyd wedi'u nodi, Chris Weaver a Val Owen. Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol.

Aelodau o'r Panel Adolygu:

- Francine Salem, Gwasanaethau Plant, Wrecsam
- Sophie Chance, Heddlu Gogledd Cymru
- John Grant, Addysg, Wrecsam
- Jane Owen, Iechyd
- Sue Aston, Iechyd
- Paula Preece, Iechyd
- Lawrence Dixon, Iechyd
- Julie Francis, Tai
- Jason Lean, TAC

Tasgau Craidd

- Penderfynu a yw penderfyniadau a champau gweithredu'r achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaethau dan sylw a BDPGC.
- Ymchwilio i waith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a champau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Chwilio am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu o unrhyw gynnydd allweddol.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd ac yn gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr ac adnabod yr adnoddau sydd eu hangen.

Tasgau Penodol i'r Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwr/adolygwyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer cynnal adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio amserlen a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gam gweithredu brys a gymerwyd.
- Llunio amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a datblygu rhagdybiaethau.
- Gyda'r adolygwr/adolygwyr, cynllunio digwyddiad dysgu i ymarferwyr gan nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer derbyn adborth.
- Gyda'r adolygwr/adolygwyr, nodi trefniadau cysylltu gyda'r unigolyn a'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad drafft ar yr adolygiad ymarfer plant i sicrhau bod gofynion y cylch gorchwyl wedi eu bodloni, bod y rhagdybiaethau cychwynnol wedi derbyn sylw ac i sicrhau bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu amlinellol, a threfnu bod y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried a chytuno arnynt.
- Trefnu i ddarparu adborth i'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad yn dilyn diwedd yr adolygiad a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwynt dysgu i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y Panel Adolygu i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Y Bwrdd yn anfon yr adroddiad at asiantaethau perthnasol i dderbyn eu sylwadau terfynol cyn ei lofnodi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Yr Is-grŵp Adolygu yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau i wasanaethau yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r dogfennau ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno ar ledaenu'r dogfennau i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a

gweithwyr proffesiynol.

- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac am ymateb i unrhyw ddiddordeb yn y cyfryngau ynghylch yr adolygiad tan fydd y broses wedi ei chwblhau.